# Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

15fed o Chwefror 2023

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Ysgrifennaf atoch i ofyn am eich cymorth wrth inni geisio sicrhau bod pob un o ddisgyblion yr adran uwchradd yn cyrraedd y safonau sy'n ddisgwyliedig gennym o ran y wisg ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn gwisgo y wisg gywir ac yn drwsiadus ond yn ystod yr hanner tymor yma, gwelwyd nifer cynyddol o ddisgyblion yn herio ac mae safon y wisg yn gyffredinol wedi dirywio. **Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n groes i'n disgwyliadau uchel ni fel ysgol.**

Gwelwyd nifer gynyddol o ferched yn gwisgo legins a sgertiau byr gyda bechgyn yn gwisgo gwaelod tracwisg a "trainers". Mae bechgyn a merched wedi dechrau gwisgo hwdis nad ydynt yn hwdi ysgol. **Nid dyma ein gwisg ysgol.**

Mae'r disgyblion yn llwyr ymwybodol o'r wisg ysgol gywir ac ar ôl hanner tymor fe fyddwn yn rhoi gwisg o'n stoc ail-law i ddisgyblion sydd ddim yn cydymffurfio. Byddwn yn eich hysbysu yn syth trwy Classcharts. Hyderaf y byddwch yn cyd-weithio â ni ac yn sicrhau bod y disgyblion yn dychwelyd ar ôl hanner tymor ar y 27ain o Chwefror yn daclusach gan wisgo'r wisg briodol. Diolchaf ymlaen llaw am eich cydweithrediad a chefnogaeth fel rhieni yn atgynerthu ein disgwyliadau gyda'ch plentyn. Pe bai cwestiwn gennych, cysylltwch ag Arweinydd Cynnydd eich plentyn os gwelwch yn dda.

**Gwelir isod grynodeb o'r wisg ysgol gywir:**

**Mae'r wisg ganlynol yn orfodol i fechgyn a merched:**

- Hwdi yr ysgol, sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol
- Crys polo'r ysgol (ni chaniateir gwisgo crysau T o dan y crys polo)
- Esgidiau duon plaen cadarn
- Ni chaniateir "trainers" o gwbl
- Cot dywyll

**Gwisg y Merched**

- Sgert blaen ddu hyd at y benglin neu drowsus plaen du o steil 'addas i'r gweithle', dros y pigwrn. **Dim sgertiau lycra byr.**
- **Ni chaniateir trowsus tynn, legins, tracwisg na 'jeans'.**
- Sanau duon neu gwyn neu 'tights' du
- Ni chaniateir colur na gemwaith ar wahân am stydiau clust.
- Disgwylir steil a lliw gwallt naturiol, addas i'r gweithle.

Yn gywir

M Thomas

Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
**www.llanhari.com**

15th of October 2023

Dear Parents / Carers

I am writing to you to ask you for your assistance in ensuring that all the secondary department's pupils adhere to our high standards with regards to their school uniform. Many pupils wear the correct school uniform and look neat and tidy but during the past half term, standards have slipped and many more pupils challenge the school rules regarding the correct school uniform. Consequently, the standard of the school uniform has deteriorated. **This is unacceptable and does not reflect our high standards as a school.**

An increasing number of girls have been wearing leggings and short skirts and boys have been wearing tracksuit bottoms and trainers. Boys and girls have started wearing hoodies with logos and not school hoodies. **These items of clothing are not our school uniform.**

The pupils are all well aware of the correct uniform and after half term we will be providing uniform from our second-hand stock to pupils who do not conform to our rules. We will inform you straight away through Classcharts. I trust that you will co-operate with us and ensure that pupils return to school after half term on the 27th of February in the correct school uniform. I'm grateful to you in advance for your co-operation and support as parents as you re-iterate our expectations with your child during the coming holidays. If you have any questions, please contact your child's Progress Leader.

**Please see a summary of the correct school uniform below:**

**The following items are compulsory for boys and girls:**

- School hoodie with school badge
- School polo shirt (T shirts are not to be worn under the polo shirt)
- Plain sturdy black shoes
- Trainers are not allowed
- Dark coat or jacket

**Girls' Uniform**

- Plain black knee length skirt or plain black trousers in a style 'suitable for the workplace', below the ankle. No short lycra skirts.
- **Tight trousers, leggings, tracksuits and jeans are not allowed**
- Black or white socks or black tights
- No make-up or jewellery is allowed apart from ear studs.
- Hairstyle and colour is expected to be natural and suitable for the workplace.

Yours sincerely

M Thomas

Meinir Thomas
Headteacher